**Grŵp Aberystwyth Gwyrddach** *(yn Gymraeg drosodd)*

# GAG Newsletter

(Printed on re-cycled paper)

**Greener Aberystwyth Group**

**No. 2 August 2007**

www.aber-gag.org.uk

**Editor: Laurie Wright**

..............................................................

## New Trees



In April, 107 trees were planted at the Ysgol Gymraeg by parents, children and helpers. Regular watering during the dry spell resulted in good survival. The Cambrian News printed details and a photo. Some old stakes and tree tubes were donated by the Woodland Trust and the only expense for GAG was tree ties.

We are delighted to see the new trees planted in North Parade. They replace those that had died in recent years. Also, three new street trees were planted in Queen's Road - but, sadly, one has already been destroyed by vandals.

GAG has developed ideas for more planting along Boulevard St Brieuc, and has taken an opportunity to comment on the planting proposals for the new Welsh Assembly Government and Ceredigion County Council office sites.

## Trees Lost



2006



2007

Many people were dismayed at the removal of the trees beside the seating area close to the clocktower. This is a popular place for residents and visitors to enjoy a rest from the shopping, and to sit in the warmth of the sun (see photo). Sadly all but one of the trees have gone and a once attractive green space has been ruined, in the opinion of many. GAG regrets that it was not consulted and the reasons for this work explained in advance.

## Distributing the Newsletter

We aim to use email for communications whenever possible. So if you have email, and we don't already have your details, please let us know because it will reduce the costs of printing newsletters, save postage, etc. Paper copies (printed in black and white) are placed in the town library, the Morlan Centre, and in the Treehouse. Former supporters of Grwp Parc y Bryn were sent a copy of the first newsletter because many were known to be interested in joining GAG.

*GAG committee members,+ email contacts for officers:*
Roger Bray, rogerpbray@aol.com *Chairman,*
Elizabeth Hamilton, Sue Harris, Len Kersley, lek@aber.ac.uk *Membership secretary.* Richard Macve, Dilys Parkin, dmparkin@hotmail.co.uk *Treasurer*
Ken Thomas, Peter Walters Davies, Laurie Wright, post@lauriewright.plus.com *Editor.* (The post of Meetings Secretary is currently vacant). *Observers:*Cllr Aled Davies; Cllr Sue Jones Davies; Cllr Alun Williams; Caroline Palmer (Welsh Historic Gardens Trust)

## GAG Developments

Catherine Whormsley presented the results of phase 1 of the Greenspace survey on 9 March 2007. An abstract of the report is available in English and Welsh on our website

GAG is now an official consultee for planning applications which are considered by Ceredigion County Council. In recent months objections have been made to proposed developments along Infirmary Road.

The AGM is due to be held in late September. Details will be circulated later.

## Ideas wanted for outdoor events

Already under consideration are a walk to discuss street trees in the town (gentle, short walk) and a geological walk (more energetic). And what would interest children? Some members have kindly volunteered to help with various tasks. Apologies to those who have not been contacted yet but your offers have not been forgotten.

## Plas Crug Ditch

For the last 15 months (since April 2006) volunteers have been making almost weekly collections of rubbish from Plas Crug ditch, which at peak periods accumulates flotsam almost every day. Constant attention is needed if we are to maintain the Avenue as a delightful traffic-free, peaceful environment for residents and visitors wishing to spend a few moments in quiet contemplation.

We kept accurate records of the items we collected, which were both varied and surprising, as follows:- large plastic bags (247),drink cans (131), plastic/glass bottles(177), and balls (36) together with a large number of miscellaneous items which included four traffic bollards, five Supermarket catalogues, shopping trolleys, three child bicycles, car wheel, bottle crate, and numerous crisp packets. On the positive side, we also recorded a pair of Mallard and a Kingfisher on several occasions, and possibly water vole.

If any reader has an hour or so to spare during the week, and would like to volunteer to become involved in this work, please contact Peter Walters Davies (davies1912@tiscali.co.uk

(English overleaf)

# Cylchlythr

(Ar bapur wedi ei ail-gylchu)

**Rhifyn 2** **Awst 2007**

**Golygydd: Laurie Wright**

**Grŵp Aberystwyth Gwyrddach**

**Greener Aberystwyth Group**

**www.aber-gag.org.uk**

.............................................................

## Coed Newydd



Plannwyd 107 o goed ym mis Ebrill gan rieni, plant a chefnogwyr yr Ysgol Gymraeg. Trwy ddyfrhau yn gyson yn ystod y cyfnod sych, goroesodd y rhan fwyaf. Bu adroddiad a llun yn y *Cambrian News*. Rhoddodd *Coed Cadw* bolion a thiwbiau i warchod y coed ifainc, felly yr unig gost i GAG oedd y rhwymynnau.

Pleser yw gweld y coed newydd yn Rhodfa'r Gogledd. Maent yn dod yn lle'r rhai a fu farw yn y blynyddoedd diweddar. Hefyd, fe blannwyd tair coeden yn Ffordd y Frenhines - ond trist yw gweld bod un wedi ei dinistrio yn barod gan fandaliaid.

Mae GAG wedi datblygu syniadau am blannu mwy o goed ar hyd Boulevard St Brieuc, a hefyd wedi manteisio ar gyfle i wneud sylwadau ar gynlluniau i blannu ar safleoedd newydd y Cynulliad a Chyngor Sir Ceredigion.

## Coed wedi Diflannu



2006



2007

Siom oedd gweld y coed wedi mynd o'r lle i eistedd wrth y cloc. Mae llawer o breswylwyr ac ymwelwyr yn hoffi dadflino yma ar ôl siopa, a mwynhau gwres yr haul (gweler llun). Yn anffodus, mae'r coed i gyd ond un wedi mynd. Ym marn llawer o bobl, mae'r lle hyfryd yma wedi ei ddifetha. Mae GAG yn gresynnu na chafodd hysbysiad nac esboniad ymlaen llaw.

## Dosbarthu'r Cylchlythr

Ein bwriad yw denyddio e-bost yn gymaint ac sy'n bosibl. Felly, os oes gennych chi e-bost, ac os nad yw'ch cyfeiriad gennym ni, a wnewch chi adael i ni wybod? Bydd hynny yn lleihau costau argraffu, postio, a.y.b. Mae copïau ar bapur (wedi eu argraffu mewn du a gwyn) ar gael yn Llyfrgell y dref, ym Morlan, ac ym mwyty'r *Treehouse*. Anfonwyd copïau i'r rhai oedd wedi cefnogi Grwp Parc y Bryn, gan fod llawer ohonynt wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â GAG.

*Aelodau Pwyllgor GAG, a chyfeiriadau e-bost swyddogion:* Roger Bray, rogerpbray@aol.com *Cadeirydd,* Elizabeth Hamilton, Sue Harris, Len Kersley, lek@aber.ac.uk *Ysgrifennydd aelodaeth.* Richard Macve, Dilys Parkin, dmparkin@hotmail.co.uk *Trysorydd,* Ken Thomas, Peter Walters Davies, Laurie Wright, post@lauriewright.plus.com *Golygydd.* (Does dim Ysgrifennydd Cyfarfodydd ar hyn o bryd)

*Sylwedyddion:* Cynghorydd Aled Davies; Cynghorydd Sue Jones Davies; Cynghorydd Alun Williams; Caroline Palmer (Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru)

## GAG yn datblygu

Cyflwynodd Catherine Whormesley ganlyniadau Rhan 1 o'r Arolwg Gwyrddfannau ar 9 Mawrth 2007. Mae crynodeb o'r adroddiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar ein wefan.

Mae GAG yn awr ar y rhestr o gyrff ymgynghorol ynglŷn â cheisiadau cynllunio i Gyngor Sir Ceredigion. Yn ddiweddar, buom yn gwrthwynebu datblygiad pellach yn Infirmary Road.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddiwedd mis Medi - manylion i ddod....

## Eisiau syniadau am weithgareddau

Yn barod, rydym yn ystyried taith gerdded (hawdd a byr) i drafod coed yn strydoedd y dref, a thaith (mwy uchelgeisiol) i ystyried daearoleg. A beth fyddai o ddiddordeb i blant? Mae rhai aelodau caredig wedi gwirfoddoli i helpu. Ymddiheurwn i'r rhai sydd heb gael ateb eto: nid ydym wedi anghofio eich cynigion.

## Ffos Plas Crug

Yn ystod y 15 mis ers Ebrill 2006, mae gwirfoddolwyr wedi bod yn casglu sbwriel bob wythnos bron o ffos Plas Crug, ble mae gwastraff yn cronni bob dydd ar adegau. Mae angen sylw cyson os ydym ni am gadw'r goedlan hon fel lle hyfryd, tawel, a di-draffig i drigolion ac ymwelwyr sydd yn dymuno mwynhau'r tawelwch am ychydig o amser.

Buom yn cadw cyfrifon manwl o'r pethau amrywiol a rhyfedd a gasglwyd, e.e.:- bagiau plastig mawr (247), caniau diod (131), poteli plastig/gwydr (177), peli (36), yn ogystal â llawer o eitemau amrywiol fel 4 côn traffig, pump catalog archfarchnad, troliau siopa, tri beic plant, olwyn car, crêt poteli, a llawer o bacedi creision. Ar yr ochr bositif, rydym ni wedi cofnodu pâr o hwyaid gwylltion, glas y dorlan sawl gwaith, ac efallai llygod y dŵr.

Os ydych chi ac amser i sbario yn ystod yr wythnos, a'ch bod yn fodlon helpu'r gyda'r gwaith yma, a wnewch chi gysylltu â Peter Walters Davies, (*davies1912@tiscali.co.uk*).